# Dogfennau Ategol - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 6 Rhagfyr 2021

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

# O bell - Pecyn atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

**4.1 SL(6)087 - Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021**

(Tudalen 1)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 - Papur 4a - Ymateb Llywodraeth Cymru

**4.2 SL(6)091 - Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgyngoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Diwygio) 2021**

(Tudalen 2)

Gorchymyn

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 - Papur 5a - Ymateb Llywodraeth Cymru

**8.2 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Grwp Rhyngweinidogol ar gyfer Etholiadau a Chofrestru**

(Tudalennau 3 - 4)

**Dogfennau atodol:**

Senedd Cymru
Welsh Parliament

LJC(6)-16-21 – Papur 39 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 3 Rhagfyr 2021

LJC(6)-16-21 – Papur 40 – Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru, 3 Rhagfyr 2021

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar Fil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar – trafod yr adroddiad drafft

15.25-15.35 (Tudalennau 5 - 9)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 - Papur 34 - Adroddiad drafft

## 13 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelwch Adeiladau – trafod yr adroddiad drafft.

15.35-15.45 (Tudalennau 10 - 27)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 - Papur 35 - Adroddiad drafft

### 14.1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir) – Trafod yr adroddiad drafft diwygiedig

(Tudalennau 28 - 45)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 – Papur 36 – Adroddiad drafft

### 14.2 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)

15.45-16.00 (Tudalennau 46 - 50)

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) – Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)

**LJC(6)-16-21 – Papur 37** - Nodyn cyngor cyfreithiol

**LJC(6)-16-21 – Papur 41** - Adroddiad drafft

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 – Papur 41 – Adroddiad drafft

**14.3 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)**

(Tudalennau 51 - 57)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-16-21 - Papur 42 - Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

## The Education (European University Institute) (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2021

### Technical scrutiny

1. The reference in the Explanatory Note to a change in the application deadline was included in error.

2. The text referred to in the report applies to both sub-paragraphs (i) and (ii). A formatting error resulted in that text following on immediately after sub-paragraph (ii). The Government does not consider that the formatting error prevents the correct interpretation of that provision.

### Merit scrutiny

1. The first sub-paragraph of the definition of "person granted leave to remain as a protected partner" should have included reference to paragraph 289D of the immigration rules. The Government will look to schedule an amendment in an appropriate future instrument.

2. The inclusion of "the territory comprising the United Kingdom, the Islands and the Republic of Ireland" is necessary. That is a term used in the Regulations and is distinct from the term "the territory comprising the United Kingdom, Gibraltar…".

## Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021

### Craffu technegol

3. Cafodd y cyfeiriad yn y Nodyn Esboniadol at newid i'r dyddiad olaf i wneud cais ei gynnwys drwy gamgymeriad.

4. Mae'r testun y cyfeirir ato yn yr adroddiad yn gymwys i is-baragraffau (i) a (ii) fel ei gilydd. Cafwyd gwall fformatio a oedd yn golygu bod y testun hwnnw yn dilyn yn syth ar ôl is-baragraff (ii). Nid yw'r Llywodraeth o'r farn bod y gwall fformatio yn atal y ddarpariaeth honno rhag cael ei dehongli'n gywir.

### Craffu ar rinweddau

3. Dylai is-baragraff cyntaf y diffiniad o "person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel partner a ddiogelir" fod wedi cynnwys cyfeiriad at baragraff 289D o'r rheolau mewnfudo. Bydd Llywodraeth Cymru yn anelu at drefnu diwygiad mewn offeryn priodol yn y dyfodol.

4. Mae angen cynnwys y testun "y diriogaeth y mae'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a Gweriniaeth Iwerddon yn ei ffurfio". Mae hwnnw'n derm a ddefnyddir yn y Rheoliadau ac mae'n wahanol i'r term "y diriogaeth y mae'r Deyrnas Unedig, Gibraltar...".

# Eitem 4.2

**Ymateb y Llywodraeth: Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgyngoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Diwygio) 2021**

Pwynt Craffu ar Rinweddau 2:

Rydym yn nodi'r anghysondeb rhwng y Nodyn Esboniadol a'r Memorandwm Esboniadol mewn perthynas â llunio Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Cadarnheir mai'r Memorandwm Esboniadol sy'n nodi'r sefyllfa gywir ac y dylai'r Nodyn Esboniadol ddarparu na luniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Eitem 8.2

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS,
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.wales

3 Rhagfyr 2021

Annwyl Huw,

Ysgrifennaf atoch yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol. Yn fy llythyr blaenorol, fe'ch hysbysais y byddai cyfarfod yn cael ei gynnal ar 4 Tachwedd ac mai fi fyddai'n cynrychioli Llywodraeth Cymru. Rwy'n ysgrifennu nawr er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi yn dilyn y cyfarfod hwnnw.

Heddiw, rwyf wedi cyhoeddi Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig sy'n cynnwys Cyd-hysbysiad y cytunwyd arno o'r cyfarfod, sydd ar gael yn: Datganiad Ysgrifenedig: Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Etholiadau a Chofrestru (3 Rhagfyr 2021) | LLYW.CYMRU

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Etholiadau a Chofrestru** |
| **DYDDIAD** | **03 Rhagfyr 2021** |
| **GAN** | **Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad** |

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, gallaf roi gwybod i'r Aelodau o'r Senedd fy mod wedi cynrychioli Llywodraeth Cymru mewn cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Etholiadau a Chofrestru ar 4 Tachwedd.

Cafodd y cyfarfod ei gynnal o bell a'i gadeirio ar yr achlysur hwn gennyf i gan fod Gweinidogion wedi cytuno o flaen llaw i gylchredeg y trefniadau cadeirio. Yn bresennol oedd Kemi Badenoch AS, y Gweinidog Gwladol, Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau, Conor Burns, Gweinidog Gwladol Gogledd Iwerddon, George Adam ASA, Gweinidog Llywodraeth yr Alban dros Fusnes Seneddol a'r Arglwydd True CBE, y Gweinidog Gwladol, Swyddfa'r Cabinet.

Cyhoeddwyd Cyd-hysbysiad ar ôl y cyfarfod, sydd ar gael yn: https://llyw.cymru/cyfarfod-grwp-rhyngweinidogol-ar-gyfer-etholiadau-a-chofrestru-4-tachwedd-2021

Byddwn yn parhau i gydweithio â'n gilydd a'r bwriad yw cynnal cyfarfodydd bob chwarter, a byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 14.2

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 3)**

**BIL DIWYGIO CYFRAITH LESDDALIAD (RHENT TIR)**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2.(iii) Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir) (y "Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 12 Mai 2021. Trosglwyddwyd y Bil o Dŷ'r Arglwyddi i Dŷ'r Cyffredin ar 15 Medi 2021. Gellir gweld y fersiwn ddiweddaraf o'r Bil wedi'i diwygio yn: https://bills.parliament.uk/bills/2864. Cynhaliwyd yr ail ddarlleniad o'r Bil yn Nhŷ'r Cyffredin ar 29 Tachwedd a chynhelir Cyfnod y Pwyllgor ar 7 a 9 Rhagfyr.

**Amcanion polisi**

3. Mae'r sector tai lesddaliad yn rhan bwysig o'r farchnad dai genedlaethol. Mae'n cartrefu tua 4.5 miliwn o aelwydydd yng Nghymru a Lloegr. Mae tua dwy ran o dair o'r cartrefi hyn yn fflatiau ac mae'r gweddill yn dai. Mae tai lesddaliad yn cyfrif am tua 16% o holl anheddau Cymru. Mae hyn yn cyfateb yn fras iawn i tua 235,000 eiddo.

4. Mae lesoedd hir (lesoedd a roddir am fwy nag 21 mlynedd fel arfer) yn darparu bod y lesddaliad yn talu rhent tir i'w rydd-ddeiliad am rentu'r tir y mae'r eiddo lesddaliad yn sefyll arno.

5. Yn hanesyddol, câi llawer o renti tir eu pennu ar lefel nominal. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae llawer o renti tir wedi cynyddu o lefelau nominal i fwy na 0.1% o werth yr eiddo, ac mae'r arfer o roi lesoedd sy'n cynnwys telerau sy'n ei gwneud yn ofynnol i adolygiadau rhent gael eu cynnal yn fynych lle mae swm y rhent tir yn dyblu wedi dod i'r golwg. Mewn rhai achosion, mae'r hawliau i gael rhenti tir gan lesddeiliaid wedi cael eu prynu a'u gwerthu yn y farchnad ariannol fel ffrwd incwm hirdymor i fuddsoddwyr trydydd parti. Nid yw lesddeiliaid yn cael unrhyw wasanaeth amlwg yn gyfnewid am dalu'r rhenti tir hyn ac nid yw'n amlwg bob amser pa gostau y bydd yn rhaid i lesddeiliaid eu talu pan fyddant yn prynu eu cartrefi. O ganlyniad, gall rhai lesddeiliad wynebu anhawster i werthu neu ailforgeisio eiddo neu gall fod yn gostus iddynt brynu'r rhydd-ddaliad drwy ryddfreinio.

6. Amcanion polisi datganedig y ddeddfwriaeth hon yw gwneud perchenogaeth lesddaliadol yn decach ac yn fwy fforddiadwy i lesddeiliaid drwy sicrhau na fydd rhydd-ddeiliaid/landlordiaid yn gallu mynnu cael tâl ariannol am rent tir mwyach.

**Crynodeb o'r Bil (fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin)**

7. Noddir y Bil gan yr Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau.

8. Mae'r Bil yn ceisio cyflawni'r amcanion polisi drwy gyfyngu rhenti tir ar lesoedd preswyl hir newydd eu sefydlu ar gyfer tai a fflatiau i un hedyn pupur y flwyddyn, sy'n cyfyngu rhenti tir i ddim gwerth ariannol i bob diben. Mae'r Bil hefyd yn gwahardd codi taliadau gweinyddol mewn perthynas â rhenti hedyn pupur.

9. Nid oes rhwymedigaeth ar landlord i godi rhent hedyn pupur ac ni ragwelir y bydd landlordiaid yn gofyn i'w lesddeiliaid dalu hedyn pupur fel rhent yn ymarferol.

10. Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar awdurdodau safonau masnachu yng Nghymru i orfodi'r Bil. Mae'r Bil hwn, fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin, hefyd yn gwneud darpariaeth i lesddeiliaid yng Nghymru adennill rhenti tir a godwyd yn anghyfreithlon drwy'r Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau.

11. Mae torri'r cyfyngiadau ar rent tir wedi'i wneud yn drosedd sifil, gyda chosb ariannol o rhwng £500 a £30,000 ar yr adeg y cyflwynwyd y Bil i Dŷ'r Cyffredin. Bydd awdurdodau lleol yn gallu cadw'r arian a godir drwy gosbau ariannol a chaiff yr arian hwn ei neilltuo i dalu am gostau gorfodi mewn perthynas ag eiddo lesddaliad preswyl.

12. Mae'r Bil yn gymwys i lesoedd preswyl hir newydd eu sefydlu. Mae'r Bil yn gwneud eithriadau ar gyfer nifer bach o fathau o lesoedd: lesoedd busnes, estyniadau statudol i lesoedd tai a fflatiau, lesoedd tai cymunedol a chynlluniau cyllido cartref (gyda'r olaf naill ai'n fath o gynnyrch ariannol rhyddhau ecwiti a elwir yn Gynllun Ôl-feddiannu Cartref neu'n drefniant rhentu i brynu). Efallai y bydd rhent yn parhau i gael ei godi ar gyfran y landlord o lesoedd rhanberchenogaeth ac ar estyniadau gwirfoddol i les (ond tan diwedd gweddill cyfnod y les cyn cychwyn yn unig).

**Yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r ail Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol**

13. Ar 26 Mai 2021, gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf yn ymwneud â'r Bil fel y'i cyflwynwyd i'r Senedd ar 12 Mai 2021. Cadarnhaodd y Memorandwm fod Llywodraeth Cymru ar y cyfan yn cefnogi'r Bil fel y'i cyflwynwyd.

14. Dywedais yn y Memorandwm fy mod o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â'r Bil fel y mae'n ymwneud â rheoleiddio rhent a pholisi tai, nad ydynt yn faterion a gadwyd yn ôl.

15. Ar 26 Tachwedd 2021, gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) yn nodi'r gwelliannau a wnaed i'r Bil yn ystod ei daith drwy Dŷ'r Arglwyddi a chyn ei gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin. Dywedais ym Memorandwm Rhif 2 fy mod yn parhau i gefnogi'r Bil yn ogystal â'r gwelliannau a wnaed iddo

hyd at y pwynt hwnnw. Nodais serch hynny fod Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau gwelliant i'r Atodlen fel bod unrhyw enillion dros ben yn dilyn camau gorfodi yn cael eu talu i Weinidogion Cymru pan fyddant yn gymwys i fangre yng Nghymru.

16. Ar 30 Tachwedd, cyflwynodd Llywodraeth y DU naw gwelliant arall i'r Bil (Gwelliannau 1-9 yn yr Atodiad) sydd i'w hystyried yng Nghyfnod y Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.

17. Rwyf o'r farn bod yr holl welliannau arfaethedig yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru ac yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Rwyf hefyd o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer yr holl welliannau gan eu bod yn ymwneud â rheoleiddio rhenti a pholisi tai, nad ydynt yn faterion a gadwyd yn ôl.

**Gwelliannau arfaethedig Llywodraeth i DU i'r Bil, y mae angen cydsyniad yn eu cylch**

18. Bydd y gwelliannau arfaethedig i **Gymal 1** yn datgymhwyso'r gofyniad am bremiwm yn achos lesoedd newydd sy'n deillio o ildio tybiedig ac ail-roi. Heb y gwelliannau hyn, os bydd lesddeiliad yn ceisio amrywio hyd neu gwmpas ei les cyn cychwyn neu eu les a reoleiddir, byddai perygl na fyddai'r les newydd yn cael ei hystyried yn les a reoleiddir at ddibenion y Bil oni bai eu bod yn talu premiwm.

19. Byddai diwygiadau arfaethedig i **Gymal 6** yn golygu y bydd les ar gyfer mangre sy'n disodli les flaenorol, sy'n fwy na'r hyn a lesiwyd yn wreiddiol, yn cael ei chynnwys o fewn cwmpas darpariaethau cymal 6 (rhent a ganiateir: lesoedd sy'n disodli lesoedd cyn cychwyn). Mae'r diwygiad yn rhoi lesoedd sy'n disodli les flaenorol ar gyfer mangre mwy o faint yn yr un sefyllfa â lesoedd sydd eisoes wedi'u cynnwys yng nghymal 6 (hynny yw, lesoedd sy'n disodli les flaenorol ac sy'n ymwneud yn unig â'r fangre, neu'r rhan o'r fangre, a oedd yn ddarostyngedig i'r les flaenorol). Gall hyn annog rhydd-ddeiliaid i roi estyniadau gwirfoddol i les safleoedd ehangach, lle na fyddent wedi gwneud hynny fel arall. Bydd diwygiad arfaethedig ar wahân i Gymal 6 yn sicrhau ei fod yn gymwys i les sy'n disodli hyd yn oed os nad yw tymor y les honno'n ymestyn y tu hwnt i ddiwedd tymor y les flaenorol.

20. Byddai gwelliant arfaethedig yn dileu **Cymal 8** o'r Bil, ar y sail bod nifer o faterion drafftio a gweithredu ymarferol gyda'r cymal hwn fel y'i drafftiwyd, gan gynnwys nad yw'n diffinio'n ddigonol sut y gellir cyflawni dyletswydd landlord.

21. Cynigir diwygiad drafftio i'r diffiniad o bremiwm yng **Nghymal 23**, fel mai dim ond ystyriaeth ariannol, yn hytrach nag unrhyw ystyriaeth o ran arian neu werth arian, a gynhwysir.

22. Fel mater o drefn, mae gwelliant wedi'i gyflwyno i ddileu **Cymal 27** o'r Bil, a fewnosodwyd yn wreiddiol fel gwelliant braint sy'n cael ei ychwanegu fel arfer at Filiau a ddechreuodd yn Nhŷ'r Arglwyddi.

23. Byddai diwygiad arfaethedig i'r **Atodlen** yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw enillion o gosb ariannol a osodir mewn perthynas â les eiddo yng Nghymru (nad ydynt wedi mynd tuag at gostau gorfodi cyfreithiol neu weinyddol) gael eu talu i Weinidogion Cymru, yn hytrach na'r Ysgrifennydd Gwladol.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd**

24. Nodaf y gwelliannau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru i'w hystyried yn ystod Cyfnod y Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.

25. Rwy'n croesawu'r gwelliannau arfaethedig i Gymal 1 a Chymal 6 (gwelliannau 1-5), gan y bydd y rhain yn atal rhai canlyniadau negyddol anfwriadol i'r Bil a allai fod wedi codi fel arall.

26. Er fy mod yn gefnogol ar y cyfan i'r egwyddor y dylai landlordiaid hysbysu lesddeiliaid o'r newidiadau a gyflwynir gan y Bil hwn, rwy'n fodlon y byddai drafftio a gweithredu'r ddyletswydd a nodir yng Nghymal 8 yn cyfiawnhau ei ddileu (gwelliant 6). Fodd bynnag, byddaf yn sicrhau y bydd yr amddiffyniadau newydd i denantiaid sy'n cael eu cyflwyno gan y ddeddfwriaeth yn cael eu cyfathrebu'n eang yng Nghymru.

27. Rwy'n fodlon â'r diwygiad technegol arfaethedig i'r drafftio yng Nghymal 23 (gwelliant 7) a'r gwelliant gweithdrefnol sy'n dileu Cymal 27 (gwelliant 8).

28. Yn olaf, rwy'n croesawu'r diwygiad arfaethedig i'r Atodlen (gwelliant 9) a fyddai'n gweld enillion nas defnyddir o gosb ariannol a osodwyd mewn perthynas â les o fangre yng Nghymru yn cael eu talu i Weinidogion Cymru. Mae hwn yn welliant yr oeddem wedi gofyn i Lywodraeth y DU ei wneud o'r blaen.

29. Felly, rwy'n cefnogi cymhwyso'r holl welliannau arfaethedig hyn i Gymru.

**Goblygiadau ariannol**

30. Mae Llywodraeth y DU wedi llunio Asesiad Effaith ar gyfer y Bil sy'n ymdrin â'r goblygiadau sy'n deillio o'r Bil i gyrff y sector preifat a phrynwyr cartrefi. Mae'r Asesiad Effaith yn dangos effaith de minimis o lai na £5m.

31. Mae'r Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau yn amcangyfrif y bydd nifer yr achosion gorfodi'n fach iawn. Bwriedir i'r broses o orfodi'r darpariaethau a geir yn y Bil hwn gan awdurdodau gorfodi fod yn niwtral yn ariannol, gan y bydd awdurdodau gorfodi'n gallu cadw enillion unrhyw gosbau ariannol at ddibenion unrhyw rai o'u swyddogaethau gorfodi sy'n ymwneud ag eiddo lesddaliadol preswyl.

**Casgliad**

32. Rwy'n parhau'n ymrwymedig i weithio ar y cyd â Llywodraeth y DU ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir). Bydd y Bil yn gwneud perchnogaeth

lesddaliad yn decach ac yn fwy fforddiadwy i lesddeiliaid drwy gyfyngu rhenti tir ar lesoedd preswyl hir newydd eu sefydlu ar gyfer tai a fflatiau i un hedyn pupur y flwyddyn. Am y rhesymau a nodir ym mharagraffau 81 i 84 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ystyriaf mai Bil Llywodraeth y DU sy'n deddfu ar gyfer Cymru a Lloegr, yw’r ffordd orau o weithredu’r diwygiadau hyn.

33. Rwy’n cefnogi'r Bil a'r gwelliannau arfaethedig.

**JULIE JAMES AS**

**Y GWEINIDOG NEWID HINSAWDD**

**3 RHAGFYR 2021**

**ANNEX A**

**Amendments to the Bill tabled by the UK Government on 30 November 2021 ahead of Committee Stage in the House of Commons**

- ***Amendment 1*** *- Clause 1, page 1, line 9, at end insert — "(but see subsection (5))."*

  *This amendment inserts a reference to the new subsection inserted by amendment 2*

- ***Amendment 2*** *- Clause 1, page 1, line 16, at end insert—*

  *"(5) Where there is a deemed surrender and regrant by virtue of the variation of a lease which is—*
  *(a) a regulated lease, or*
  *(b) a lease granted before the relevant commencement day,*

  *subsection (1) applies as if paragraph (b) were omitted/'*

  *This amendment provides that where there is a deemed surrender and regrant of a regulated lease or a pre-commencement lease, the new lease may be a regulated lease even if it is not granted for a premium*

- ***Amendment 3 -*** *Clause 6, page 4, line 30, after first "of' insert "premises which consist of, or include,"*

  *This amendment clarifies that clause 6 can apply to a replacement lease which includes some premises not demised by the pre-commencement lease*

- ***Amendment 4*** *- Clause 6, page 4, line 39, after "period" insert "(if any)"*

  *This amendment clarifies that clause 6 can apply to a replacement lease for a term that does not extend beyond the end of the term of the pre-commencement lease.*

- ***Amendment 5*** *– Clause 6, page 5, line 7, after first "of' insert "premises which consist of, or include,*

  *This amendment clarifies that clause 6(5) can apply to a new lease which includes some premises not demised by the lease to which subsection (2) applied.*

- ***Amendment 6*** *– Clause 8, Page 6, line 26, leave out Clause 8*

  *This amendment leaves out Clause 8 of the Bill, which was inserted at Lords Report Stage*

- ***Amendment 7*** *- Clause 23, page 14, line 13, leave out "consideration in money or money's worth" and insert "pecuniary consideration"*

*This amends the definition of a premium so that only pecuniary consideration, rather than any consideration in money or money's worth, is included.*

- ***Amendment 8** - Clause 27, page 15, line 25, leave out subsection (2)*

  *This amendment removes the privilege amendment inserted in the Lords*

- ***Amendment 9** - Schedule, page 19, line 16, leave out from "paid" to end of line 17 and insert "—*
  
  *(a) where the penalty was imposed in relation to a lease of premises in England, to the Secretary of State, and*
  
  *(b) where the penalty was imposed in relation to a lease of premises in Wales, to the Welsh Ministers."*

  *This amendment provides that where penalty proceeds are not used by the enforcement authority to meet the cost of its enforcement functions they are to be paid to the Secretary of State, if the penalty was imposed in respect of a lease of premises in England, and to the Welsh Ministers, if the penalty was imposed in respect of a lease of premises in Wales.*